Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Ffion Jones**

**Pwllheli**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddi... gyhoeddi



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

10/01/2020

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Gwarchodwr plant yw Ffion Jones sy'n darparu gofal o'i chartref yn Efailnewydd ger Pwllheli, ac mae hi wedi'i chofrestru i ofalu am hyd at 10 plentyn o dan 12 oed. Mae'r gwasanaeth ar agor rhwng 08.00 a 18.00, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae'r gwarchodwr plant yn cyflogi cynorthwyydd. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.

## Crynodeb

| Thema | Gradd |
|---|---|
| Llesiant | Da |
| Gofal a Datblygiad | Digonol |
| Yr Amgylchedd | Digonol |
| Arwain a Rheoli | Digonol |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn hapus, yn hyderus ac yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r gwarchodwr plant ac â'i gilydd. Mae'r gwarchodwr plant yn brofiadol ym maes y blynyddoedd cynnar ac yn rhoi amrywiaeth o weithgareddau i'r plant er mwyn hybu eu chwarae a'u dysgu. Mae'r amgylchedd yn groesawgar i'r plant ac mae ganddynt amrywiaeth addas o adnoddau sy'n briodol i'w hoedran i ehangu eu chwarae a'u dysgu. Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei gwasanaeth yn dda ac mae ganddi gydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni.

### 2. Gwelliannau

Mae'r gwarchodwr plant wedi llwyddo i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn dilyn ei hymweliad cofrestru er mwyn cadw'r plant yn ddiogel a gwella arferion. Ers yr arolygiad hwn, rydym wedi derbyn datganiad o ddiben diwygiedig ac mae'r gwarchodwr plant wedi cadarnhau bod y cadeiriau gardd a bwrdd wedi cael eu symud. Nid yw'r gwarchodwr plant wedi gallu dod o hyd i ddewis amgen boddhaol i'r ffenestri plastig yn y Tŷ Bach Twt sy'n torri byth a hefyd, felly caiff y Tŷ Bach Twt ei symud yn y dyfodol agos.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom nodi un maes lle nad yw'r gwarchodwr plant yn bodloni gofynion cyfreithiol mewn perthynas â rheoliad 28; rhaid sicrhau bod gan y cynorthwyydd ffeil staff gyflawn. Nid oes hysbysiad diffyg cydymffurfio wedi cael ei gyflwyno am nad oedd y mater hwn yn effeithio ar ddiogelwch na llesiant y plant. Hysbyswyd y gwarchodwr plant er mwyn iddi fynd i'r afael â'r mater.

Gwnaed argymhellion mewn perthynas â gofal a datblygu a'r amgylchedd.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 1. Llesiant Da

### Crynodeb

Mae'r plant yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain ac mae ganddynt lais cryf. Maent yn wirioneddol hapus ac yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd ac â'r gwarchodwr plant. Mae'r plant wedi setlo'n dda, yn mwynhau eu gweithgareddau, ac yn dysgu gwahanol sgiliau drwy chwarae yn llwyddiannus.

### Ein canfyddiadau

Roedd y plant yn cael dewis pa weithgareddau roeddent am gymryd rhan ynddynt, ac roeddent yn gallu cael gafael ar yr hyn roeddent am ei gael yn hawdd am fod yr eitemau chwarae o fewn cyrraedd iddynt. Er enghraifft, dewisodd y plant chwarae dan do ac yn yr awyr agored a gwnaethant benderfynu pa deganau a chyfarpar roeddent am eu defnyddio. Roedd gan y plant lais cryf a gwrandawyd ar yr hyn roedd ganddynt i'w ddweud bob amser. Er enghraifft, dewisodd y plant pa ffrwyth roeddent am ei fwyta amser byrbryd a chafodd eu dewisiadau eu parchu.

Roedd y plant wedi setlo ac roeddent yn teimlo'n gyfforddus â'i gilydd ac â'r gwarchodwr plant. Roeddent yn hyderus iawn a daethant atom i ofyn beth roeddem yn ei wneud a dangos y teganau roeddent yn hoffi chwarae â nhw. Roeddent yn edrych ymlaen at fynd allan i'r awyr agored ac yn awyddus i chwarae â dewis o adnoddau yn yr awyr iach. Roedd ganddynt gydberthnasau agos â'r gwarchodwr plant a gwnaethant chwerthin wrth fynd ati, gyda'i gilydd, i'w chofleidio wrth iddi eistedd wrth eu hymyl yn tacluso'r teganau cyn mynd allan i chwarae.

Roedd y plant yn dechrau dysgu sut i ryngweithio'n gadarnhaol ac roeddent yn dod yn hunanddisgybledig. Er enghraifft, pan oedd plentyn am gael tegan plentyn arall, roedd yn gwrando ar yr hyn roedd gan y gwarchodwr plant i'w ddweud am gymryd ei dro ac roedd yn hapus i ddewis tegan arall i chwarae ag ef yn y cyfamser. Roedd y plant yn dysgu sut i gydweithredu drwy wrando ar gyfarwyddiadau a, phan ofynnwyd iddynt, aeth pob un ohonynt ati i roi eu cotiau a'u hesgidiau ymlaen cyn mynd allan i chwarae.

Roedd gan y plant amrywiaeth eang o weithgareddau i hybu eu dysgu ac roeddent yn edrych yn hapus wrth chwarae. Er enghraifft, gwnaethant fwynhau chwilio am ddeinosoriaid gwahanol yn y twba archwilio y tu allan ac adeiladu trên a cherbydau cymhleth allan o flociau adeiladu, ac fe'u clywyd yn chwerthin yn uchel wrth chwarae cuddio. Roedd y plant yn cadw'n brysur, yn cael eu hysgogi ac yn dysgu sgiliau gwahanol drwy chwarae. Er enghraifft, gwnaethant fwynhau cystadlu yn erbyn ei gilydd i weld pwy oedd gyflymaf ar eu beiciau o amgylch cwrs rhwystrau. Gwnaethant ganolbwyntio'n dda wrth fynd ar eu beiciau o amgylch y rhwystrau, gan roi gwên fawr wrth gwblhau'r gylchffordd.

Roedd y plant yn dysgu sut i wneud pethau drostynt eu hunain, gyda phob un yn canu cân golchi dwylo wrth fynd ati i olchi a sychu eu dwylo cyn amser byrbryd, a gwnaethant dynnu eu hesgidiau a hongian eu cotiau wrth ddod i mewn. Roedd y plant yn defnyddio eu dychymyg

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

yn dda, yn creu straeon wrth chwarae ac yn gafael yn ofalus mewn cleddyfau tegan wrth esgus bod yn fôr-ladron. Roedd y plant yn dysgu am iechyd da, yn bwyta digon o ffrwythau amser byrbryd ac yn yfed dŵr er mwyn gwneud yn siŵr eu bod wedi eu hydradu.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 2. Gofal a Datblygiad — Digonol

### Crynodeb

Mae gan y gwarchodwr plant gydberthnasau agos â'r plant ac mae'n eu hadnabod yn dda iawn. Mae'n sicrhau y caiff y plant eu cadw'n ddiogel ac yn hybu ffyrdd iach o fyw ar y cyfan. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu ystod o weithgareddau ac yn diwallu anghenion unigol y plant. Mae'n hybu rhyngweithio cadarnhaol yn llwyddiannus ac yn gyson.

### Ein canfyddiadau

Roedd y gwarchodwr plant yn gwybod beth i'w wneud os oedd ganddi unrhyw bryderon mewn perthynas â diogelu plant; roedd yn deall y gweithdrefnau a ddylai fod ar waith ac roedd wedi cwblhau cwrs amddiffyn plant. Roedd gan y gwarchodwr plant gymhwyster cymorth cyntaf pediatrig cyfredol sy'n ei galluogi i roi cymorth cyntaf brys os oes angen. Roedd yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau, ac yn gofyn i'r rhieni lofnodi'r cofnod er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt. Roedd angen gwneud un newid i'r gweithdrefnau newid cewynnau er mwyn sicrhau bod y gweithdrefnau cywir ar waith yn unol â chanllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru. Er bod creision a bisgedi plaen yn cael eu cynnig i'r plant o bryd i'w gilydd, roedd y gwarchodwr plant yn darparu prydau a byrbrydau iach a maethlon yn gyffredinol gyda dŵr neu laeth i'w hyfed. Esboniodd y gwarchodwr plant sut roedd yn cynnwys unrhyw anghenion deietegol mewn bwydlenni dyddiol ac yn cadw'r holl ddewisiadau bwyd a gwybodaeth benodol wrth law yn y gegin.

Roedd y gwarchodwr plant yn hybu rhyngweithio cadarnhaol yn llwyddiannus ac yn trin y plant â pharch. Roedd hi'n fodel rôl da ac roedd ganddi gydberthynas naturiol a gwirioneddol â'r plant, gan siarad â nhw mewn ffordd addfwyn a dathlu eu cyflawniadau bob amser neu roi canmoliaeth iddynt am ddangos cwrteisi. Roedd y gwarchodwr plant yn dilyn y gweithdrefnau a nodwyd yn ei pholisi rheoli ymddygiad, sy'n hybu rhyngweithio cadarnhaol, a gwnaeth yn siŵr bod gan y plant ddigon i'w wneud i'w cadw'n hapus ac yn brysur.

Roedd hi'n cynllunio amrywiaeth o weithgareddau chwarae a dysgu a oedd yn briodol ar gyfer oedran y plant a'u camau datblygu, dan do ac yn yr awyr agored. Er nad oedd cofnod o'r ffordd roedd hi'n defnyddio ei harsylwadau i gynllunio chwarae a dysgu pob plentyn ar gyfer y dyfodol, roedd gan y gwarchodwr plant dystiolaeth ffotograffig o'r gweithgareddau a gwblhawyd gan y plant. Er enghraifft, gwelwyd y plant yn mynd am dro ar draeth lleol, ar gefn beic mewn parc beiciau ac yn defnyddio balŵns i ddysgu lliwiau, cyfrif ac adnabod rhifau a ysgrifennwyd ar y balwns. Roedd y gwarchodwr plant yn frwdfrydig yn ei rôl ac yn sicrhau bod y plant yn cael hwyl, gyda phawb yn wên o glust i glust wrth iddi ymuno â nhw yn y gweithgareddau yr oeddent wedi'u dewis.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 3. Yr Amgylchedd — Digonol

## Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd croesawgar, glân a diogel i'r plant. Mae hi'n sicrhau y gall y plant gael gafael ar amrywiaeth o adnoddau sy'n hybu eu chwarae a'u dysgu ac mae'r ffordd y caiff yr adnoddau eu gosod yn hybu eu hannibyniaeth.

## Ein canfyddiadau

Roedd y gwarchodwr plant yn sicrhau bod y safle yn ddiogel; roedd y drws ffrynt wedi'i gloi, roedd yr ardd yn ddiogel a gofynnwyd i ni lofnodi'r llyfr ymwelwyr ar ôl dangos ein manylion adnabod. Roedd wedi mynd i'r afael â'r materion diogelwch a godwyd yn ystod ei hymweliad cofrestru. Er enghraifft, roedd y teledu bellach yn ddiogel ac roedd gatiau diogelwch estynadwy / rhwydi yn sicrhau bod yr ardaloedd chwarae yn yr ardd yn ddiogel. Roedd asesiadau risg sylfaenol wedi'u llunio ac roedd gweithdrefnau ar gyfer teithiau ar waith.

Roedd y gwarchodwr plant yn cadw cofnodion ysgrifenedig o'r eitemau a lanhawyd, a oedd yn dangos bod y tasgau hyn yn cael eu cwblhau'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y posibilrwydd o groes-heintio yn cael ei reoli a'i ddileu lle y bo'n bosibl. Roedd y cofnodion presenoldeb dyddiol yn gywir, sy'n golygu y gellid cadarnhau pwy oedd yn bresennol mewn argyfwng. Roedd ymarferion tân wedi'u cynnal, ond pe bai'r rhain yn cael eu cynnal yn fwy rheolaidd, byddai gan y plant well dealltwriaeth o'r ffordd y dylid gadael yr adeilad yn ddiogel.

Roedd y gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd glân a golau i'r plant chwarae a dysgu ynddo. Roedd digonedd o le i'r plant fod yn egnïol dan do ac yn yr awyr agored gyda'r adnoddau wedi'u gosod fel bod modd i'r plant ddewis beth roeddent am ei wneud. Roedd y gwarchodwr plant yn sicrhau bod ardaloedd cyfforddus a thawel ar gael lle y gallai'r plant ymlacio neu gysgu.

Roedd y gwarchodwr plant yn darparu amrywiaeth o adnoddau glân a oedd mewn cyflwr da yn gyffredinol ac a oedd yn addas i oedran y plant a'u camau datblygu. Roedd y teganau a'r adnoddau yn cyfoethogi chwarae a dysgu'r plant ac yn hybu eu chwilfrydedd naturiol i ddysgu. Er enghraifft, roeddent yn mwynhau chwarae yn y gegin fwd, gan ddefnyddio eitemau cartref megis sosbenni a phadelli. Roedd cyfarpar megis seddi 'booster' ger bwrdd y gegin a byrddau a chadeiriau ar lefel isel yn golygu y gallai'r plant eistedd gyda'i gilydd adeg prydau bwyd neu gymryd rhan mewn gweithgareddau pen bwrdd. Fodd bynnag, soniodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod hi'n amhosibl ceisio cadw'r ffenestri plastig yn y Tŷ Bach Twt yn gyfan, ond roedd hi'n monitro'r sefyllfa er mwyn sicrhau bod unrhyw risg bosibl i'r plant yn cael ei rheoli.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 4. Arwain a Rheoli — Digonol

**Crynodeb**

Mae gan y gwarchodwr plant weledigaeth glir, ac mae'n darparu gwasanaeth trefnus sy'n diwallu anghenion y plant a'r rhieni. Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli adnoddau'n dda ac mae ganddi gydberthnasau da â'r rhieni. Mae'n gwneud newidiadau cadarnhaol sydd o fudd i'r plant.

**Ein canfyddiadau**

Roedd y gwarchodwr plant wedi rhoi systemau addas ar waith ar gyfer rheoli'r gwasanaeth. Roedd y datganiad o ddiben yn sicrhau bod y rhieni'n cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn penderfynu a yw'r gwasanaeth yn diwallu eu hanghenion nhw a'u plentyn. Roedd y gwarchodwr plant yn cadw'r cofnodion gofynnol, fel gwybodaeth yn ymwneud â'r plant a chofnodion presenoldeb dyddiol. Roedd hi'n cadw gwybodaeth am ei gwasanaeth yn ddiogel er mwyn cynnal cyfrinachedd y rhieni a'u plant. Er enghraifft, cadarnhaodd y gwarchodwr plant fod ffotograffau a bostiwyd ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol wedi'u cymryd ar ei ffôn symudol a'u rhannu â rhieni'r plant a oedd yn bresennol. Roedd gwybodaeth ysgrifenedig, yn ogystal â pholisïau a gweithdrefnau, ar gael yn Gymraeg, a oedd yn golygu bod y gwarchodwr plant yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.

Roedd y gwarchodwr plant wrthi'n cwblhau adolygiad blynyddol o'i gwasanaeth ac yn aros i'r rhieni roi sylwadau ysgrifenedig iddi. Er iddi ddweud wrthym ei bod yn aml yn cynnwys dewisiadau'r plant yn y gweithgareddau a gynllunir, nid oedd y rhain yn cael eu cofnodi ar hyn o bryd. Roedd hi wedi mynd i'r afael â'r materion a godwyd ar ôl ei hymweliad cofrestru, gan ddangos ei hymrwymiad i wneud newidiadau cadarnhaol er budd y plant. Er enghraifft, roedd wedi sicrhau bod y teledu yn ddiogel ac wedi diweddaru polisïau.

Yn gyffredinol, roedd y gwarchodwr plant yn deall ei rôl wrth reoli'r gwasanaeth ac roedd yn sicrhau bod tystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'i chymhwyster cymorth cyntaf yn gyfredol. Roedd y gwarchodwr plant yn gymwys, yn brofiadol ac wrthi'n gweithio tuag at gyflawni cymhwyster Lefel 5 ym maes y blynyddoedd cynnar. Er ei bod wedi creu ffeil staff ar gyfer y cynorthwyydd oedd yn gweithio gyda hi, nid oedd yr holl ddogfennau gofynnol ar gael. Ers i'r cynorthwyydd gael ei chyflogi, roedd y gwarchodwr plant wedi cynnal un cyfarfod goruchwylio gyda hi. Roedd hi'n deall y dylai gynnal y cyfarfodydd hyn yn rheolaidd a bod angen iddi gynnal arfarniadau bob blwyddyn.

Roedd y gwarchodwr plant yn gofyn i'r rhieni roi gwybodaeth ysgrifenedig am eu plant cyn iddynt ddechrau, a oedd yn rhoi gwybodaeth werthfawr iddi am anghenion a dewisiadau unigol y plant. Roedd dyddiaduron dyddiol a chylchlythyrau yn cael eu cwblhau a oedd yn rhoi gwybodaeth i'r rhieni am ofal dyddiol eu plant a'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwasanaeth. Roedd y gwarchodwr plant yn mynd â'r plant ar amrywiaeth o deithiau cerdded

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

a thripiau, a oedd yn helpu i ehangu eu gwybodaeth am y byd o'u hamgylch.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim – dyma oedd arolygiad cyntaf y gwarchodwr plant ers iddi gofrestru.

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gallai'r gwarchodwr plant ystyried y canlynol;

- diwygio'r polisi newid cewynnau er mwyn cydymffurfio â chanllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar newid cewynnau a'r angen i lanhau'r ddwy ffordd;
- cynnal ymarferion tân yn fwy rheolaidd;
- sicrhau nad oes unrhyw greision na bisgedi ar y fwydlen wythnosol er mwyn cydymffurfio â'r canllawiau cyfredol ar faeth;
- cadw cofnodion ysgrifenedig o ddatblygiad pob plentyn er mwyn dangos sut mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio ei harsylwadau i gynllunio ar gyfer chwarae a dysgu'r plentyn yn y dyfodol;
- cofnodi sut mae'n defnyddio barn y plant wrth fynd ati i gynllunio;

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 5. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 10 Ionawr 2020 rhwng 12.45 a 15:40.

Gwnaethom y canlynol:

- ystyried adroddiad cofrestru'r gwasanaeth ac unrhyw hysbysiadau;
- archwilio sampl o gofnodion, dogfennaeth a pholisïau, a oedd yn cynnwys y datganiad o ddiben, asesiadau risg a'r polisïau amddiffyn plant, cwynion a rheoli ymddygiad;
- edrych ar yr ardaloedd a ddefnyddir gan y plant a'r adnoddau ar ddiwrnod ein harolygiad;
- siarad â'r plant;
- arsylwi ar y plant a'r gofal a gawsant;
- rhoi adborth manwl i'r gwarchodwr plant ar ein canfyddiadau.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 6. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwarchodwr Plant** |
| **Person Cofrestredig** | **Ffion Jones** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **10** |
| **Ystod oedran y plant** | **Oed geni hyd at 12 oed** |
| **Oriau agor** | **Dydd Llun i ddydd Gwener 08.00 – 18.00** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **Yr arolygiad cyntaf yn dilyn cofrestru** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **10 Ionawr 2020** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Ydy. Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.<br>Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cyhoeddi** 16/03/2020

Nid oedd gan unrhyw gofnodion diffyg cydymffurfio statws Agored.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi